Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

# CANLLAWIAU YMARFEROL AR Y WEITHDREFN I YMDRIN Â SYLWADAU GAN DDIODDEFWYR YN NHRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU[1]

## Mynegai (paragraffau)


| | | |
|---|---|---|
| I. | Cefndir | 1 |
| II. | Dioddefwyr | 4 |
| III. | Dyletswydd Statudol | 7 |
| IV. | Materion Rhagarweiniol | 10 |
| V. | Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr | 11 |
| VI. | Datganiadau Effaith ar Ddioddefwr | 13 |
| VII. | Dioddefwyr sydd am gael gwybod dyddiad y gwrandawiad nesaf | 33 |
| VIII. | Dioddefwyr sydd am gyflwyno sylwadau i'r tribiwnlys ar yr amodau rhyddhau | 38 |
| IX. | Datgelu tystiolaeth y dioddefwr i'r claf | 41 |
| X. | Cais gan ddioddefwr i fod yn bresennol yn y gwrandawiad | 48 |
| XI. | Rhannu â'r dioddefwr amodau rhyddhau'r Tribiwnlys | 52 |
| XII. | Rhannu â'r dioddefwr resymau'r Tribiwnlys dros y penderfyniad | 54 |
| XIII. | Adolygiad pellach | 62 |


Oni nodir yn wahanol, y Rheolau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008.

[1] Cyhoeddwyd y canllawiau diwygiedig hyn gan Lywydd y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr a'u mabwysiadu ar gyfer Cymru a'u haddasu gan farnwyr Tribwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

# I. CEFNDIR

1. Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn wedi'i ddrafftio i helpu barnwyr ac aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ('y tribiwnlys') i reoli, ymysg pethau eraill:
   a) sylwadau gan ddioddefwyr;
   b) ceisiadau i ddarllen datganiadau effaith ar ddioddefwr;
   c) ceisiadau gan ddioddefwyr i fod yn bresennol mewn gwrandawiadau; a
   d) ceisiadau gan ddioddefwyr i gael y rhesymau dros benderfyniadau.

2. Cyhoeddwyd y canllawiau diwygiedig hyn gan Lywydd y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ac fe'u mabwysiadwyd ar gyfer Cymru a'u haddasu gan farnwyr Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Daw hyn yn dilyn cyflwyno hawl newydd o dan adran 21 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 (gan ddiwygio Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004) sy'n rhoi'r hawl mewn achosion claf dan gyfyngiadau i ddioddefwyr ddarparu datganiad effaith ar ddioddefwr ac, oni bai bod rhesymau da dros eu gwahardd, i fynychu'r gwrandawiad tribiwnlys i ddarllen y datganiad effaith ar goedd. Daeth y diwygiad hwn i rym ar 25 Mehefin 2025.

3. Mae hefyd yn ymgorffori'r penderfyniad yn achos *Maher v FtT (Mental Health) and Ors [2023 EWHC 34 (Admin) ('Maher')*, a oedd yn ymwneud â hawliad gan Teresa Maher ar ôl i'w mab Kyle gael ei ladd yn anghyfreithlon. Y bwriad yw sicrhau yn y dyfodol bod sylwadau dioddefwyr hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r fframwaith cyfiawnder agored a nodir yn y dyfarniad hwnnw.

# II. DIODDEFWYR

4. Mae'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (a.32) a'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion (a.2) ill dwy yn eu gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyhoeddi cod ymarfer ar y gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwr ymddygiad troseddol ('y Cod Dioddefwyr')).

5. Mae ystyr 'dioddefwr' at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion wedi'i nodi yn adran 1 o'r Ddeddf honno.

6. At hynny, mae fersiwn ddiweddaraf y Cod Dioddefwyr, a ddiweddarwyd ar 29 Ionawr 2025, hefyd yn cynnwys diffiniad o ddioddefwr. Adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, mae'n debyg y bydd y Cod Dioddefwyr yn cael ei adolygu ymhellach.

# III. DYLETSWYDD STATUDOL

7. Pan fydd llys yn dedfrydu claf/troseddwr i rai 'datrysiadau' (gweler paragraff 8 isod), mae gan y tribiwnlys ddyletswydd statudol[2] i ganiatáu i ddioddefwr gyflwyno sylwadau i'r tribiwnlys, fel arfer drwy ei Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, ynghylch pa amodau y dylid eu gosod adeg rhyddhau'r claf o'r ysbyty, ar yr amod bod y ddedfryd wedi'i gwneud ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2005 neu ar ôl 3 Tachwedd 2008 ar gyfer cleifion heb gyfyngiadau. Nid yw'r ddyletswydd hon yn ôl-weithredol ac mae'n gymwys i ddioddefwyr yn unig.

[2] Pennod 2 o Ran 3 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

8. Mae'r datrysiadau hynny'n cynnwys y canlynol:

- y rhai a ddyfarnwyd yn euog o drosedd rywiol, trosedd dreisgar neu derfysgaeth sydd wedyn yn cael eu gwneud yn destun gorchymyn ysbyty;
- y rhai y canfyddir
    a) nad ydynt yn ffit i bledio nac i gyflawni'r weithred neu'r anweithred y maent wedi'i chyhuddo ohoni; neu
    b) yn ddieuog oherwydd gorffwylledd, o dan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Gorffwylltra) 1964 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr mewn perthynas â throsedd rywiol, trosedd dreisgar neu derfysgaeth; ac yna'n cael eu gwneud yn destun gorchymyn ysbyty;
- y rhai a ddyfarnwyd yn euog o drosedd rywiol, trosedd dreisgar neu derfysgaeth, sydd wedyn yn destun cyfarwyddyd ysbyty a chyfarwyddyd cyfyngu (os yw'r ddedfryd gysylltiedig o garchar am 12 mis neu fwy); ac
- y rhai a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy o garchar am drosedd rywiol, trosedd dreisgar neu derfysgaeth, ac a drosglwyddwyd o garchar i ysbyty dan gyfarwyddyd trosglwyddo.

9. O dan Atodlen 6 i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, sy'n diwygio'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr, mae'r hawliau hyn hefyd yn cael eu hymestyn i ddioddefwyr trosedd rywiol, trosedd dreisgar neu derfysgaeth a gyflawnir gan gleifion sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty ond nad ydynt yn destun cyfyngiadau.

## IV. MATERION RHAGARWEINIOL

10. Mae tair ystyriaeth bwysig y dylai dioddefwyr, cyrff prawf ac eraill eu cadw mewn cof wrth ystyried cysylltu â'r tribiwnlys neu ddarparu datganiad effaith ar ddioddefwr:

- Nid yw dioddefwyr nac aelodau agos o'u teulu yn bartïon yn yr achos. Y partïon mewn achosion iechyd meddwl yw'r claf, yr 'awdurdod cyfrifol' (rheolwyr yr ysbyty), yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder (os yw'n glaf dan gyfyngiadau), ac unrhyw berson arall sy'n dechrau achos drwy wneud cais (Rheol 2(1)).
- Pan fydd person yn cael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae'n cael ei ddargyfeirio o gosb am driniaeth. Mae'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn glaf iechyd meddwl. Pan wneir cais, bydd preifatrwydd y claf yn rhan o unrhyw ystyriaethau.
- Pan fydd y tribiwnlys yn ystyried rhyddhau, bydd yn canolbwyntio, yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ar y meini prawf statudol a nodir yn y Ddeddf honno. Ni all y tribiwnlys weithredu y tu allan i'r cynllun statudol.

## V. SWYDDOGION CYSWLLT DIODDEFWYR

11. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gweithredu fel pont rhwng y dioddefwr, y cyrff prawf a'r tribiwnlys.

12. Byddai'r tribiwnlys fel arfer yn disgwyl i unrhyw geisiadau ddod drwy'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr neu reolwr yr ysbyty, yn hytrach na'n uniongyrchol gan y dioddefwr.

## VI. DATGANIADAU EFFAITH AR DDIODDEFWR

13. Mae Adran 21 o'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn darparu fel a ganlyn:

*21 Victim impact statements to Mental Health Tribunals (restricted patients)*

*(1) Chapter 2 of Part 3 of the Domestic Violence, Crime and Victims Act 2004 (victims' rights to make representations and receive information) is amended as follows.*

*(2) In section 37(8)(c)(i), for "that area" substitute "that local probation board".*

*(3) After section 37 insert—*

*"37ZA Victim impact statements where restriction order made"*

*(1) This section applies if, in a case where section 37 applies, an application or reference mentioned in subsection (5) of that section is made to the First-tier Tribunal or the Mental Health Review Tribunal for Wales.*

*(2) The relevant probation body—*

*(a) must take all reasonable steps to ascertain whether a person who appears to the body to be the victim of the offence or to act for the victim of the offence wishes to provide a victim impact statement to the body, and*

*(b) if the person provides such a statement, must forward it to the tribunal.*

*(3) Where a victim impact statement has been forwarded to the tribunal under subsection the tribunal must—*

*(a) allow the person who made the statement to request permission to read the statement to the tribunal at a relevant hearing, and*

*(b) grant such permission unless the tribunal considers that there are good reasons not to.*

*(4) The tribunal may have regard to the statement when determining a matter specified in section 36(5)(a) or (b) (but must not have regard to it for any other purpose).*

*(5) In this section—*

*"relevant hearing" means any hearing held by the tribunal before making a decision which disposes of proceedings on the application or reference mentioned in subsection (1);*

*"the relevant probation body" has the meaning given in section 37(8);*

*"victim impact statement" means a statement about the way in which, and degree to which, the offence has affected and (as the case may be) continues to affect the victim or any other person."*

14. O dan adran 37A o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr, ac mewn achosion cymwys dan gyfyngiadau yn unig, mae gan ddioddefwyr mewn achosion gyda chleifion dan

gyfyngiadau hawl ddiamod bellach i anfon Datganiad Effaith ar Ddioddefwr i'r tribiwnlys. Pan fyddant yn gwneud cais i ddarllen y Datganiad Effaith ar Ddioddefwr mewn gwrandawiad tribiwnlys, rhaid i'r tribiwnlys ganiatáu iddynt wneud hynny oni bai bod y tribiwnlys yn canfod bod rhesymau da dros beidio â'i ganiatáu.

15. Gweithredir fesul cam:

a) Rhaid iddo fod yn achos gyda gorchymyn cyfyngu;
b) Rhaid i'r corff prawf/Swyddog Cyswllt Dioddefwyr perthnasol gymryd pob cam rhesymol i ganfod a yw person, sy'n ymddangos i'r corff mai ef yw dioddefwr y drosedd neu sy'n gweithredu ar ran dioddefwr y drosedd, yn dymuno cyflwyno datganiad effaith ar ddioddefwr;
c) Os yw'r person yn darparu datganiad o'r fath, rhaid i'r corff prawf/Swyddog Cyswllt Dioddefwyr perthnasol ei anfon i'r tribiwnlys;
d) Yna, rhaid i'r tribiwnlys ganiatáu i'r person a wnaeth y datganiad ofyn am ganiatâd i ddarllen y datganiad i'r tribiwnlys mewn gwrandawiad perthnasol, ac wedyn rhoi'r cyfryw ganiatâd (oni bai bod y tribiwnlys o'r farn bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.)

## Pwrpas y Datganiadau Effaith ar Ddioddefwr

16. Nid yw'r diwygiad a gyflwynir gan y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion yn newid y gofyniad i ystyried y meini prawf statudol.

17. Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau, yna bydd y Datganiad Effaith ar Ddioddefwr yn berthnasol i benderfyniad y tribiwnlys o ran pa amodau y dylid eu gosod ar ryddhad amodol. Mae'r darpariaethau newydd yn galluogi'r tribiwnlys i roi sylw i'r Datganiad Effaith ar Ddioddefwr wrth benderfynu ar fater a bennir yn adran 36(5)(a) neu (b) o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (ond rhaid peidio â rhoi sylw iddo at unrhyw ddiben arall). Mae adran 36(5)(a) neu (b) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 yn darparu fel a ganlyn:

> *(5) The matters are—*
>
> *(a) whether the patient should be subject to any conditions in the event of his discharge from hospital [while a restriction order is in force in respect of him];*
>
> *(b) if so, what conditions;*
>
> *(c)….*

18. Yn ôl y gyfraith, dim ond pan fydd y tribiwnlys yn ystyried yr amodau y caiff roi sylw i'r Datganiad Effaith ar Ddioddefwr, felly dylai unrhyw ddatganiad gynnwys unrhyw amodau yr hoffai'r dioddefwr eu gweld yn cael eu gosod pe bai'r tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau.

19. Nid oes dim i atal dioddefwr rhag anfon ei sylwadau am unrhyw amodau, fel y mae llawer wedi'i wneud erioed: nid oes rhaid iddynt wneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwr os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Datganiad Effaith ar Ddioddefwr: Gweithdrefn

20. Os yw'r dioddefwr yn dymuno gwneud cais i ddarllen Datganiad Effaith ar Ddioddefwr i'r tribiwnlys, rhaid i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr/corff prawf wneud cais i'r tribiwnlys cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl a, lle bo modd, dim hwyrach na 28 diwrnod cyn y gwrandawiad, drwy anfon y cais i'r tribiwnlys.

21. Ymdrinnir ag unrhyw gais o'r fath fel mater sy'n codi yng nghwrs achos gan Lywydd y tribiwnlys, un o'r Barnwyr Cyflogedig neu unrhyw farnwr Panel Claf dan Gyfyngiadau a awdurdodir gan y Llywydd ("y barnwr sy'n penderfynu") cyn y gwrandawiad. Rhaid i'r tribiwnlys ganiatáu'r cais oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

22. Gall y barnwr sy'n penderfynu gymryd sylwadau gan yr Awdurdod Cyfrifol a/neu gynrychiolydd cyn gwneud penderfyniad. Ar ôl dod i benderfyniad ar y cais, bydd y tribiwnlys yn hysbysu'r dioddefwr a'r partïon ac yn rhoi cyfarwyddiadau o ran unrhyw drefniadau ymarferol ar gyfer y gwrandawiad.

23. Os yw'r dioddefwr yn dymuno darparu Datganiad o Effaith ac awgrymu amodau i'r tribiwnlys eu hystyried, ond nad yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawiad ei hun, dylid egluro hynny yn y cais. Gall y tribiwnlys ganiatáu cais o'r fath.

24. Yn yr un modd, os nad yw'r dioddefwr eisiau darllen y datganiad ar goedd yn fyw i'r tribiwnlys, gall y dioddefwr ofyn i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwr ddarllen ei ddatganiad ar ei ran neu gall ofyn iddo ei recordio ymlaen llaw.

25. Nid yw'r uchod yn cyfyngu ar bwerau rheoli achos barnwr dan Reol 5 na'i allu i eithrio pobl dan Reol 25(4) yn y gwrandawiad ei hun.

26. Dylid nodi os oes mwy nag un dioddefwr yn dymuno cyflwyno Datganiad Effaith ar Ddioddefwr, yna'n dibynnu ar eu hyd, bydd angen i'r tribiwnlys ystyried effaith hynny ar y ffenestr restru ac ar amcangyfrif o hyd y gwrandawiad.

## Datganiad Effaith ar Ddioddefwr: Arfer Gorau

27. Mae Rheolau 25(3)(b) a 26(a) yn caniatáu i bersonau â buddiant fod yn bresennol a chymryd rhan yn y gwrandawiad i'r graddau y mae'r tribiwnlys yn credu bod hynny'n briodol. Mae hyn yn rhoi disgresiwn eang i'r tribiwnlys reoleiddio ei weithdrefn ei hun gan ystyried amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys yr egwyddor cyfiawnder agored a'r rhagdybiaeth preifatrwydd.

28. Erbyn hyn, cynhelir llawer o wrandawiadau tribiwnlys ar-lein drwy gyswllt fideo. Os bydd y dioddefwr yn gofyn am ganiatâd i ddarllen Datganiad Effaith ar Ddioddefwr a bod y cais yn cael ei ganiatáu, y drefn arferol fydd rhoi cyfle i'r dioddefwr ddarllen ei ddatganiad i'r tribiwnlys dros y ffôn a/neu dros Teams ar ddechrau'r gwrandawiad, oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrth yr arfer hwnnw.

29. Os yw'r dioddefwr yn dymuno bod yn bresennol drwy gyswllt fideo, er y bydd modd gweld y tribiwnlys, efallai na fydd y claf na staff yr ysbyty yn ymddangos ar y sgrin.

30. Dylid rhoi gwybod i'r dioddefwr mai dim ond darllen cynnwys ei ddatganiad y caiff wneud. Ni fydd ganddo hawl i'w newid nac ychwanegu ato, oni bai (gyda chaniatâd) bod datganiad atodol ysgrifenedig wedi'i ddarparu cyn y gwrandawiad tribiwnlys. Yn ddelfrydol, dylai'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr fod gyda'r dioddefwr pan fydd yn darllen ei ddatganiad.

31. Rhaid i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr hefyd roi gwybod i'r dioddefwr cyn y gwrandawiad na all ei Ddatganiad Effaith ar Ddioddefwr, yn ôl y gyfraith, gael unrhyw effaith ar y penderfyniad i ryddhau'r claf ai peidio. Caiff ei ystyried gan y tribiwnlys dim ond os bydd y tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau ac yn ystyried a ddylid gosod amodau ac, os felly, beth ddylai'r amodau fod.

32. Nid yw'r diwygiad newydd yn caniatáu i'r dioddefwr fod yn bresennol drwy gydol y gwrandawiad. Felly fel arfer, bydd yn gadael cyn y rhoddir unrhyw dystiolaeth arall, oni bai bod yna gais ar wahân yn cael ei ganiatáu (gweler paragraff 48 isod).

## VII. DIODDEFWYR SYDD AM GAEL GWYBOD DYDDIAD Y GWRANDAWIAD NESAF

33. Caiff claf sy'n cael ei gadw'n gaeth wneud cais i dribiwnlys wrando ei achos unwaith y flwyddyn. Ar hyn o bryd, os nad yw'r claf yn gwneud cais, caiff ei achos ei gyfeirio at y tribiwnlys bob tair blynedd. Ar ben hynny, os bydd claf a ryddhawyd yn amodol yn cael ei adalw, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyfeirio'r achos at y tribiwnlys o fewn mis i'w alw'n ôl.

34. Pan fydd dioddefwr yn dymuno cael gwybod am ddyddiad unrhyw achos tribiwnlys sydd yn yr arfaeth yn ymwneud â'r claf/troseddwr, bydd ei Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, yn dilyn cais ysgrifenedig gan y Swyddog i'r tribiwnlys ar ran y dioddefwr, yn cael gwybod ymlaen llaw am y dyddiad (ond nid y lleoliad) a bennwyd ar gyfer unrhyw wrandawiad sy'n ymwneud â'r claf hwnnw.

35. Dylid cyfeirio cais o'r fath at Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru: mhrt@gov.wales

36. Bydd y tribiwnlys yn cofnodi ac yn cydnabod pob cais o'r fath. Yna, bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr/dioddefwr yn cael gwybod pa ddyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad. (Dalier sylw, nid yw hwn yn hysbysiad o dan Reol 16(e), dim ond yn arfer anffurfiol i'w fabwysiadu er mwyn caniatáu i ddioddefwr wybod pryd mae gwrandawiad tribiwnlys yn cael ei gynnal er mwyn iddo gael cyfle i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r tribiwnlys ymlaen llaw, os yw'n dymuno gwneud hynny (yn unol â Rheol 5(2)(c) a Rheol 18(1)(a) a (b)).

37. Efallai y bydd y dioddefwr, ar ôl cael ei hysbysu, yn dymuno darparu Datganiad Effaith ar Ddioddefwr, ac mae'r weithdrefn ar gyfer hynny wedi'i nodi uchod [paragraff 20].

## VIII. DIODDEFWYR SYDD AM GYFLWYNO SYLWADAU I'R TRIBIWNLYS AR YR AMODAU RHYDDHAU

38. Ar ôl cyflwyno cais ysgrifenedig i gael gwybod cyn y gwrandawiad am y dyddiad a bennwyd ar gyfer unrhyw wrandawiad sy'n ymwneud â chlaf dan gyfyngiadau, mae gan ddioddefwr hawl i ddarparu Datganiad Effaith ar Ddioddefwr i'r tribiwnlys (drwy'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr os oes modd) ac unrhyw sylwadau perthnasol y mae'n dymuno i'r tribiwnlys eu hystyried sy'n ymwneud ag amodau rhyddhau.

39. Dylai sylwadau'r dioddefwr ganolbwyntio ar y canlynol:

- a ddylai'r claf, os caiff ei ryddhau o'r ysbyty neu'r ddalfa, fod yn destun unrhyw amodau ac, os felly,
- pa amodau penodol y dylid eu gosod a pham.

40. Dylai'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr hysbysu'r dioddefwr y bydd gofyn i'r tribiwnlys ystyried llawer iawn o wybodaeth o wahanol ffynonellau. Er y gallai sylwadau a gwybodaeth dioddefwr fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol, dim ond un elfen yw'r rhain o ystod o ffactorau a fydd yn helpu'r tribiwnlys i wneud penderfyniad terfynol ynghylch yr amodau y mae'n eu gosod ar y claf.

## IX. DATGELU TYSTIOLAETH Y DIODDEFWR I'R CLAF

41. Mae Rheolau 5(2) (c) a 18(2)(a) (i) a (ii) yn darparu y caiff y tribiwnlys ganiatáu fel rhan o'r dystiolaeth unrhyw ddogfen neu ddeunydd ysgrifenedig, p'un a fyddai dogfen neu ddeunydd o'r fath yn dderbyniol mewn treial sifil ai peidio ac a oedd y dystiolaeth ar gael i benderfynwr blaenorol.

42. Fel mater o degwch gweithdrefnol sylfaenol, gall cleifion fel arfer ddarllen a chlywed yr hyn a ddywedir amdanynt, gan gynnwys sylwadau a wneir gan ddioddefwyr yn y gwrandawiad. **Felly, dylai'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr roi gwybod i'r dioddefwr bod yr wybodaeth a roddir yn debygol iawn o gael ei datgelu i'r claf.**

43. Dylai dioddefwr sy'n poeni am hyn gysylltu â'i Swyddog Cyswllt Dioddefwyr mewn achosion dan gyfyngiadau neu reolwr yr ysbyty mewn achosion heb gyfyngiadau i ofyn am gyngor.

44. Gall dioddefwr wneud cais i beidio â datgelu ei sylwadau i'r claf, ond dim ond mewn rhai amgylchiadau y caniateir hyn fel arfer. Byddai angen ystyriaeth farnwrol ar gais o'r fath a rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau i'r perwyl hwn ar yr adeg y cyflwynir y deunydd gan y dioddefwr.

45. O dan Reol 17(1), er mwyn i'r tribiwnlys roi cyfarwyddyd yn gwahardd datgelu dogfen neu wybodaeth i berson, rhaid iddo fod yn fodlon:

   a) y byddai datgeliad o'r fath yn debygol o achosi niwed difrifol i'r person hwnnw neu i ryw berson arall; a
   b) o roi sylw i fudd cyfiawnder, ei bod yn gymesur rhoi cyfarwyddyd o'r fath.

46. Wrth benderfynu a yw er budd cyfiawnder a'i fod yn gymesur i roi cyfarwyddyd i beidio â datgelu'r deunydd i'r claf (neu i unigolyn arall), rhaid i'r tribiwnlys ofyn i'w hun a fyddai peidio â datgelu yn atal y claf/parti/person rhag cymryd rhan effeithiol ym mhob agwedd ar yr achos, gan gynnwys y gwrandawiad (gweler *RM v St Andrew's Healthcare* [2010] UKUT 119 (AAC)). Efallai y gellid ystyried datgelu'n rhannol neu ddatgelu fersiwn wedi'i golygu.

47. Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu peidio â datgelu i'r claf ar ôl clywed sylwadau gan y dioddefwr ac/neu eraill, gall ddal i anfon copi o'r deunydd at gynrychiolwyr cyfreithiol y claf (rheol 17 (4) a (5)). Byddant wedyn yn gallu gwneud cais am ddatgeliad ac, os byddant yn llwyddiannus, gallai hyn arwain at ddatgelu rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth i'r claf. Os na

chaniateir y cais, ni chaniateir iddynt ddatgelu deunydd o'r fath, na'r wybodaeth sydd ynddo, i'r claf. Byddai unrhyw gais a phenderfyniad o'r fath yn cael eu gwneud cyn y gwrandawiad tribiwnlys.

## X. CAIS GAN DDIODDEFWR I FOD YN BRESENNOL YN Y GWRANDAWIAD

48. Yn y rhan fwyaf o achosion, datganiad ysgrifenedig neu'r cyfle i ddarllen Datganiad Effaith ar Ddioddefwr ar ddechrau'r gwrandawiad fydd y ffordd fwyaf boddhaol i'r dioddefwr fynegi ei farn. Mae'n debyg y byddai cymryd rhan uniongyrchol yn yr achos, neu mewn ffordd sy'n dod â'r dioddefwr i gysylltiad uniongyrchol â'r claf, mewn llawer o achosion yn annhebygol o helpu'r dioddefwr, y claf, na'r tribiwnlys.

49. Bydd unrhyw gais i fod yn bresennol yn y gwrandawiad cyfan neu ran ohono yn cael ei drin fesul achos gan ddefnyddio egwyddorion cyfiawnder agored, sef y prif amcan fel y nodir yn Rheol 3, a'r ffaith y dylai'r gwrandawiad fod yn breifat oni orchmynnir fel arall. Gall unrhyw gais i fod yn bresennol olygu bod yn rhaid i'r tribiwnlys geisio sylwadau gan y partïon.

50. Wrth benderfynu a ddylai dioddefwr fod yn bresennol drwy gydol gwrandawiad neu ran o wrandawiad, mae'r tribiwnlys yn debygol o ystyried, ymysg pethau eraill:

a) yr egwyddor cyfiawnder agored a Rheol 3;
b) unrhyw angen i ddiogelu hawliau'r partïon, gan gynnwys y rhagdybiaeth preifatrwydd;
c) natur y dystiolaeth yn yr achos;
d) a oes gan leoliad y tribiwnlys lle cynhelir y gwrandawiad gyfleusterau fideo neu gyfleusterau priodol eraill i ganiatáu mynediad i'r gwrandawiad, ac a fyddai'n ymarferol neu'n gymesur symud i leoliad neu ystafell gwrandawiad arall;
e) a oes unrhyw berygl o darfu ar y gwrandawiad;
f) unrhyw sylwadau y mae'r partïon yn dymuno eu gwneud.

51. Ystyrir rheol 25(4) a (5) pan fydd tribiwnlys yn penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio.

## XI. RHANNU CANLYNIAD Y GWRANDAWIAD A'R AMODAU RHYDDHAU GYDA'R DIODDEFWR

52. Mewn achosion dan gyfyngiadau, dylai swyddfa'r tribiwnlys allu rhoi gwybod, ar gais, i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ysgrifenedig am yr elfennau perthnasol gydag amodau rhyddhau'r tribiwnlys. Yn benodol, mae gan y dioddefwr hawl i wybod:

- a yw'r claf am gael ei ryddhau ac, os felly, pryd y bydd hyn yn digwydd;
- os yw claf dan gyfyngiadau am gael ei ryddhau, a fydd yn cael ei ryddhau'n absoliwt neu'n destun amodau;
- os yw claf dan gyfyngiadau am gael ei ryddhau dan amodau, beth yw'r amodau hynny'n gyffredinol;
- os yw claf dan gyfyngiadau wedi'i ryddhau o'r blaen o dan amodau a bod y dioddefwr wedi'i hysbysu ohonynt, a oes unrhyw amrywiad i'r amodau hyn gan y tribiwnlys; ac
- os yw unrhyw orchymyn cyfyngu yn dod i ben yn dilyn camau i'w cymryd gan y tribiwnlys,

pa ddyddiad y mae'r gorchymyn cyfyngu yn dod i ben.

53. Mewn achosion heb gyfyngiadau, rheolwr yr ysbyty sydd fel arfer yn gyfrifol am roi gwybod i'r dioddefwr am ganlyniad y gwrandawiad. Rhaid i awdurdodau ysbyty, fel partïon yn yr achos, gydymffurfio â'r Rheolau, yn enwedig Rheol 10(1), i sicrhau eu bod yn datgelu'r canlyniad a'r amodau yn unig. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gwneud cais i'r tribiwnlys ystyried datgeliad pellach.

## XII. RHANNU CANLYNIAD Y GWRANDAWIAD A'R AMODAU RHYDDHAU GYDA'R DIODDEFWR

54. Mewn achosion dan gyfyngiadau, mae'r penderfyniad yn achos *Maher* wedi egluro'r sefyllfa ac mae bellach yn canolbwyntio ar hawliau dioddefwyr i gael gwybodaeth am benderfyniad y tribiwnlys. Mae achos *Maher* yn sefydlu bod gan y tribiwnlys bŵer disgresiwn i ddatgelu'r rhesymau neu, os oes ffactorau sy'n pwyso yn erbyn datgelu rhai neu bob un o'r rhesymau (fel y gallai fod), i ystyried darparu trosolwg (crynodeb) neu fersiwn wedi'i golygu i'r dioddefwr o'r rhesymau dros y penderfyniad.

55. Dylid gwneud ceisiadau'n ysgrifenedig i swyddfa'r tribiwnlys: Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, PO Box 1134, Caerdydd CF11 1WX neu drwy e-bost: mhrt@gov.wales I gynorthwyo'r barnwr, dylai'r dioddefwr/Swyddog Cyswllt Dioddefwyr egluro'r rhesymau dros y cais a pham y bydd yn hyrwyddo'r egwyddor cyfiawnder agored.

56. Ni fydd y ffaith y gallai'r cais gan y dioddefwr/Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ddod ar ôl cyhoeddi penderfyniad terfynol y tribiwnlys (ac felly bod yr achos gerbron y tribiwnlys wedi dod i ben) yn atal y tribiwnlys rhag ystyried cais o'r fath (paragraff 99 *Maher*).

57. Ar ôl derbyn cais ysgrifenedig, bydd y tribiwnlys yn ystyried y cais drwy gymhwyso'r egwyddor cyfiawnder agored. Dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol i ddiogelu preifatrwydd y claf neu eraill y caiff y tribiwnlys wyro oddi wrth yr egwyddor honno o gyfiawnder agored – gweler *Maher* yn 116, sy'n cadarnhau *"The reasons for and against rebutting the presumption of privacy in mental health cases needed to be weighed against the open justice principle as a proportionality exercise for the FTT to undertake when considering whether to exercise its discretion."*

58. Felly, bydd y tribiwnlys yn ystyried a yw datgelu'r wybodaeth yn ymarferol ac yn gymesur, ac a allai helpu i sicrhau'r ymddangosiad bod cyfiawnder wedi'i gyflawni, a fydd yn ei dro yn sicrhau hyder y cyhoedd mewn penderfyniadau barnwrol gan ystyried preifatrwydd y claf neu eraill ar yr un pryd.

59. Er nad yw'n rhestr hollgynhwysfawr, dylid pwyso a mesur unrhyw gais gan ystyried y ffactorau canlynol:
    1. Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur y dylid gorchymyn gwyro oddi wrth yr egwyddor cyfiawnder agored, gyda'r bwriad o ddiogelu'r hawliau y mae gan y claf (neu eraill) hawl i'w diogelu (*Maher*, paragraff 107).
    2. Rhaid arfer y pŵer disgresiwn a roddwyd i'r tribiwnlys bob amser yng ngoleuni'r amgylchiadau ar y pryd (*R (MAS Group) v SSERA [2019] EWHC 158*, ym mharagraffau 56 a 57). Bydd ffeithiau'r achos yn pennu a oes cyfiawnhad dros wyro oddi wrth yr

egwyddor cyfiawnder agored mewn unrhyw achos penodol. Rhaid i'r tribiwnlys gynnal cydbwysedd yn seiliedig yn llwyr ar y ffeithiau.

3. Nid yn unig bod rhaid i’r tribiwnlys ystyried buddion y claf, ond rhaid iddo hefyd roi sylw i’r budd cyhoeddus ehangach sydd yn rhan o’r egwyddor cyfiawnder agored, sef helpu i sicrhau cyfiawnder drwy fod yn dryloyw a rhoi hyder i'r cyhoedd yn y system.
4. Nid oes rhaid iddo fod yn bopeth neu ddim. Efallai y bydd y tribiwnlys yn ystyried rhoi trosolwg neu grynodeb o'r rhesymau i'r dioddefwr mewn ffordd a fyddai'n diogelu preifatrwydd y claf, ond hefyd yn rhoi sicrwydd a dealltwriaeth i'r dioddefwr.
5. Gall unrhyw risg o niwed y gallai'r datgeliad ei achosi, o ran cynnal proses farnwrol effeithiol, gweinyddu cyfiawnder yn briodol neu i fuddiannau cyfreithlon eraill, fod yn rhesymau dros gynnig fersiwn wedi’i golygu neu wrthod.
6. Os cynigir na ellir rhoi rhesymau i'r dioddefwr, rhaid i'r tribiwnlys egluro pam na allai fersiwn wedi'i golygu o'r penderfyniad fodloni'r rhagdybiaeth preifatrwydd neu pam nad oedd yn bosibl rhoi fersiwn wedi’i golygu o’r rhesymau. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rhaid i'r tribiwnlys roi sylw digonol i’r rhesymau y mae'r dioddefwr wedi'u cyflwyno i'w datgelu.

60. Os bydd y rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu datgelu i'r dioddefwr, byddant wedi cael eu rhoi mewn ymateb i gais penodol y dioddefwr drwy ei Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, ac felly bydd datgelu'r rhesymau fel arfer yn cael ei gyfyngu i'r partïon a'r dioddefwr/Swyddog yn unig. Nid yw hyn yn newid y sefyllfa ddiofyn sef na ellir eu cyhoeddi na’u rhannu heb ganiatâd y tribiwnlys. (Mae Adran 12 o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960 yn darparu, pan fydd llys yn eistedd yn breifat, fel sy'n digwydd bron bob amser mewn achosion Iechyd Meddwl, y bydd cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud ag achosion yn ddirmyg llys (a12(1)(b).)

61. Gellir gwneud cais ar wahân i Lywydd y tribiwnlys i gyhoeddi penderfyniad neu grynodeb. Gall y tribiwnlys arfer ei awdurdod i ddatgelu gwybodaeth yn ehangach o dan Reol 10(1), ond rhaid arfer hyn yn gyson ag amrywiaeth o ystyriaethau, gan gynnwys yr egwyddor cyfiawnder agored, hawliau Erthygl 6 ac 8 y claf ac eraill, a chyda phrif amcan Rheol 3 mewn golwg. Gall hyn olygu ystyried sylwadau gan y partïon. Mae'r tribiwnlys yn agored i geisiadau o'r fath a bydd yn gwneud penderfyniadau fesul achos.

## XII. ADOLYGIAD PELLACH

62. Ni chaniateir i ddioddefwr wneud cais am ganiatâd i apelio ar bwynt cyfreithiol i'r Uwch Dribiwnlys o dan a.78A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 oherwydd bod yr hawl honno wedi'i chyfyngu i bartïon yn yr achos - ac nid yw dioddefwr yn barti.

63. Fodd bynnag, efallai y byddai gan y dioddefwr sail mewn adolygiad barnwrol os yw'n credu y gallai'r penderfyniad fod yn anghyfreithlon, yn afresymegol neu'n afresymol o safbwynt Wednesbury. Felly, mae ganddo hawl i gael cyngor cyfreithiol ar faterion o'r fath.

**MABWYSIADWYD AR GYFER CYMRU A’U HADDASU GAN Y BARNWR R. PAYNE A’R BARNWR C. BUTCHER, TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU, 25 MEHEFIN**